

**Diweddaru Strategaeth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol**

Diolch am neilltuo amser i ateb y cwestiynau sy'n ymwneud â drafft cyntaf y Strategaeth

**Enw Cyntaf:** Michael

**Cyfenw:** Evans

**Beth yw eich cyfeiriad? Ble'r ydych wedi eich lleoli?:** Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

**Ffôn:** 03000 654272

**Ebost:** michael.evans@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**A ydych yn llenwi'r ffurflen ar eich rhan eich hun ynteu ar ran sefydliad:** Ar ran sefydliad

**Os 'ar ran sefydliad', pa sefydliad yr ydych yn ymateb ar ei ran?** Cyfoeth Naturiol Cymru

**A ydych yn aelod o'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol ar hyn o bryd?:** I

**Cwestiynau ynghylch diweddaru'r strategaeth yn gyffredinol**

1. Rydym wedi cyflwyno gweledigaeth newydd ar gyfer y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol – a ydych yn ei chefnogi? Ydym. Mae'n ymgorffori nodau'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yn dda iawn ac mae'r nodau hynny'n cydberthyn yn agos iawn i nodau Cyfoeth Naturiol Cymru.
2. A ydych yn deall beth yw'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol a'ch bod yn rhan ohono? Ydym. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yn bartner strategol i ni, gan ein bod yn defnyddio dulliau rhwydweithio, adnoddau a data'r Rhwydwaith i'n helpu i gyflawni ein gwaith. Rydym hefyd yn defnyddio'r Porth fel ein prif ddull o rannu ein data biolegol yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol posibl.
3. Yn dilyn yr ymarfer ymgysylltu yn 2014, a ydych yn teimlo bod pobl wedi gwrandao arnoch? Ydym. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiolchgar am y cyfleoedd yr ydym wedi'u cael i gyfrannu i'r broses o greu'r strategaeth hon ac rydym yn awyddus i barhau i ymwneud â'r gwaith parhaus o ddatblygu a gweithredu'r strategaeth.
4. A wnech chi ymrwmo i egwyddorion Strategaeth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, a sut yr ydych am ymwneud â'r broses weithredu? Mae'r egwyddorion a amlinellir yn y strategaeth yn cyd-fynd â Strategaeth Rheoli Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, ac rydym felly'n barod i ymrwmo iddynt. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn aelod gweithgar o'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol ers tipyn o amser, ac mae wedi cyfrannu a defnyddio data drwy Borth y Rhwydwaith ac wedi bod yn aelod o Grŵp Prosiectau'r Porth a Grŵp Defnyddwyr y Porth sydd newydd gael ei ffurfio. Yn ogystal, mae gennym gynrychiolwyr ar Fwrdd Ymddiriedolwyr y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol ac rydym yn cymryd rhan yng ngweithgareddau ehangach y Rhwydwaith, e.e. drwy fynychu'r gynhadledd flynyddol a Chyfarfodydd Cyffredinol Arbennig. Rydym yn ymwybodol y gallai rhai elfennau o'n hymwneud â'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol fod yn fwy effeithiol, yn enwedig o safbwynt llif data i'r Porth, ac mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag ef yn ystod y misoedd nesaf.

**Nod strategol 1; Cofnodi, amrywio, gwella a chrynhai data ynghylch bywyd gwyllt**

5. A ydych o blaid cyflymu llif data drwy systemau'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol? Ydym. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbennig o falch o weld cyfeiriad penodol at strategaeth ynghylch cofnodi ar-lein, gan gynnwys safonau ac adnoddau, oherwydd rydym o'r farn bod hynny'n ffordd allweddol o gynyddu cyflymder, cysylltedd a defnydd hwylus o ddata a'i fod yn sbardun i gasglu a chrynhai data o ansawdd uchel sydd wedi'i safoni a'i ddilysu ac y gellir ei gyflwyno i wirwyr.
6. A oes gennych ddata (mewn fformatau nad ydynt yn rhai digidol) yr ydych am ei grynhai? Oes, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru lawer o gofnodion papur, yn enwedig mewn swyddfeydd rhanbarthol. Yn ogystal, mae gennym lawer o ddata y gellid ei grynhai o adroddiadau sy'n gysylltiedig â thrywyddedau rhywogaethau.
7. Pa gamau yr hoffech weld y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yn eu cymryd i ddenu pobl newydd i ymwneud â chofnodi biolegol? Camau i greu a hyrwyddo adnoddau a gwefannau cofnodi ar-lein a chamau i gysylltu'n effeithiol ag arbenigwyr lleol ac arbenigwyr penodol i dacsonau e.e. Canolfannau Cofnodion Lleol a chynlluniau a chymdeithasau. Byddai hynny'n golygu bod y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yn ganolfan sy'n cysylltu'r holl wahanol gofnodwyr, cynlluniau, grwpiau ac ati â'i gilydd. Rydym hefyd yn teimlo bod y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol a chofnodi biolegol yn gyffredinol yn dal yn eithaf anghyfarwydd i bobl sydd y tu allan i'n maes ni. Profwyd bod cysylltiad cryf yn bodoli rhwng y broses o recriwtio a chadw cofnodwyr ac ymdeimlad o gyfrannu at ganlyniadau gwirioneddol. Mae hyrwyddo'r

defnydd o ddata bioamrywiaeth ym maes ymchwil, polisi, penderfyniadau ynghylch rheoli tir ac ati'n rhywbeth y mae'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol mewn sefyllfa dda i'w wneud, a byddai adrodd ynghylch canlyniadau a hyrwyddo canlyniadau i grwpiau buddiant lleol a chyfryngau lleol a chenedlaethol yn rhoi rheswm amlwg, go iawn i gofnodwyr biolegol cyfredol a phosibl fynd ati i gofnodi. Mae hanesion, er enghraifft, am safle a gaiff ei ddynodi ar sail data a gasglwyd gan gofnodwyr ac a rannwyd drwy'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yn gymhelliant pwerus.

8. A ydych chi a'ch sefydliad am gael rôl yn y broses o weithredu'r nod hwn, ac os felly, beth allai'r rôl honno fod? Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynorthwyo i weithredu'r nod hwn drwy ein gwaith partneriaeth gyda'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol. Byddwn yn parhau i gyfrannu at ddatblygu safonau ac adnoddau a rhannu ein data drwy'r Porth. Rydym hefyd yn cynyddu ein gwaith cyfathrebu allanol drwy ein gwefan a'n defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol. Rhan o'r gwaith hwnnw yw rhannu gwybodaeth am ein rôl fel sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a'r modd y mae cofnodion biolegol yn rhan hanfodol o'r dystiolaeth honno.

### **Nod strategol 2; Sicrhau bod data a gwybodaeth ynghylch bywyd gwyllt ar gael i bawb**

9. Beth y mae'n rhaid i'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol ei wneud i sicrhau bod data'r DU ynghylch bywyd gwyllt yn fwy amlwg ac agored? Parhau i hyrwyddo'r manteision. Ymddengys ar hyn o bryd fod y dadleuon dros gyfyngu data'n fwy 'amlwg' na'r dadleuon dros rannu data'n agored, er bod hynny'n newid gyda'r cynnydd yn y ffocws cyhoeddus a gwleidyddol ar ddata agored a gyda thwf cyfryngau cymdeithasol a dulliau o rannu data ar-lein yn gyffredinol.
10. Beth fyddai'n eich atal rhag rhannu data'n fyd-eang? Does dim yn ein hatal rhag rhannu data'n fyd-eang. Yn wir, rydym yn awyddus i wneud hynny. Yr unig gyfyngiadau a roddir gennym ar ddata yw cyfyngiadau statudol, megis y rhai a amlinellwyd yn y polisi a gyhoeddwyd gennym sy'n nodi ein dehongliad ni o adran 12.5(g) y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, sy'n cyfeirio at achos lle byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y gwaith o warchod yr amgylchedd y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddo. Yn yr achos hwn, byddai manylder gofodol y data'n llai.
11. Pan fyddwn yn defnyddio'r ymadrodd "Teulu o brosiectau a systemau", a ydych yn deall bod hynny'n eich cynnwys chi a'ch systemau rheoli data? Ydym, ac mewn achosion lle byddai cysylltiadau agosach yn gwella llif data a gwaith gwirio, rydym yn awyddus i wella cysylltiadau rhwng y systemau hyn a gwella eu gallu i ryngweithredu â'i gilydd e.e. drwy alluogi'r Porth i gael data'n awtomatig o systemau Cyfoeth Naturiol Cymru, a defnyddio gwasanaethau'r we i ddefnyddio data'r Porth yn Cyfoeth Naturiol Cymru a'i ddangos ar y cyd â data a gwybodaeth arall sydd gennym er mwyn ein galluogi i reoli adnoddau naturiol Cymru drwy ddull sy'n seiliedig ar ecosystemau.
12. A ydych chi a'ch sefydliad am gael rôl yn y broses o weithredu'r nod hwn, ac os felly, beth allai'r rôl honno fod? Bydd ein rôl yng Ngrŵp Defnyddwyr a Grŵp Prosiectau'r Porth yn ein galluogi i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gyflawni'r nod hwn. At hynny, mae ein gwaith gyda'n partneriaid eraill, gan gynnwys Canolfannau Cofnodion Lleol, yn rhoi cyfle i ni annog eraill i fabwysiadu'r dull hwn o weithredu. Ar hyn o bryd mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n datblygu ei bolisi ynghylch data agored, a'r nod yw sicrhau bod cymaint ag sy'n bosibl o ddata a gwybodaeth yr ydym o'r farn eu bod yn 'agored' ar gael, a sicrhau eu bod mor hygyrch ag sy'n bosibl i bartneriaid allanol a'r cyhoedd.

### **Nod strategol 3; Denu pobl at fywyd gwyllt ac ennyn diddordeb pobl ynddo**

13. Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol y gall y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol ddenu pobl at fywyd gwyllt a gwaith cofnodi biolegol, ac ennyn diddordeb pobl yn y meysydd hyn? Mae ystod o sefydliadau'n ymwneud â'r gwaith hwn, sydd eisoes yn rhan o'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, megis y Cyngor Astudiaethau Maes, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Byddai rhannu'r gwersi a ddysgwyd gan y sefydliadau hyn a hyrwyddo eu gwaith nhw'n fan cychwyn da. Yn ogystal, byddai'n dda gallu defnyddio eu profiad nhw i hyrwyddo'r ystod lawn o fanteision, e.e. nid yn unig y gwaith o greu cofnodion biolegol a'r holl fanteision sy'n gysylltiedig â hynny, ond hefyd y manteision i iechyd a lles o fod allan yn yr awyr agored, y ffaith ei fod yn weithgarwch sy'n addas i deuluoedd a phlant, y cyfle i ymwneud â byd natur ac ati. Mae'n bosibl hefyd y gellid ymwneud yn fwy helaeth ag ymgyrchoedd a digwyddiadau proffil uchel, e.e. arolygon ar raddfa fawr a gynhelir gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain ac ati, digwyddiadau bioblitz a digwyddiadau cofnodi eraill. Rwyf o'r farn na chaiff prifysgolion a sefydliadau ymchwil eraill eu defnyddio ddigon er mwyn cynnwys myfyrwyr ac ymchwilwyr yn y gwaith. Gellid cysylltu â sefydliadau eraill hefyd i'w cael i gynorthwyo yn y maes hwn, naill ai drwy ddod yn rhan o'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol neu drwy weithio mewn partneriaeth ar ryw sail arall, e.e. mae Fframwaith Arsylwi Amgylcheddol y DU (UKEOF) yn ymwneud yn helaeth â chreu a hyrwyddo safonau ac adnoddau ar gyfer gwyddor dinasyddion.
14. A ydych o blaid cael y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yn ganolfan hollgynhwysol, ac a ydych yn

ystyried bod eich data a'ch gwybodaeth chi yn rhan o ganolfan o'r fath? Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweld mai Porth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yw'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o rannu ein cofnodion biolegol. Rydym yn awyddus i ddod o hyd i ffyrdd o integreiddio data'r Porth â data arall er mwyn darparu darlun o amgylchedd Cymru a thu hwnt ar lefel ecosystemau, a bydd hynny'n golygu cysylltu cofnodion biolegol â ffurfiau eraill ar ddata, e.e. drwy borth 'Lle' Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn deall yn iawn mai ffordd o ddefnyddio data'r Porth yw hwn, nid ymgais i ddyblygu'r Porth neu'i ddisodli.

15. A ydych chi a'ch sefydliad am gael rôl yn y broses o weithredu'r nod hwn, ac os felly, beth allai'r rôl honno fod? Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl glir i'w chyflawni o safbwynt ymwneud â'r cyhoedd, drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau, drwy ei gylch gorchwyl o ran addysg, drwy hyrwyddo gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored ac ati.

#### **Nod strategol 4; Darparu'r seilwaith rheoli gorau ar gyfer gwybodaeth am fywyd gwylt**

16. A yw eich seilwaith chi eich hun ar gyfer cofnodi a storio data'n sefydlog ac yn ddiogel? Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n cyfuno'r systemau a'r rhaglenni a gâi eu defnyddio gan ei dri chorff rhagflaenol i gyflawni gwaith cofnodi biolegol, er mwyn eu rhoi ar un platfform. Mae hynny'n golygu proses o brofi cysyniadau, gwaith echdynnu-trawsnewid-llwytho ac ad-drefnu systemau. O ganlyniad, gellir ystyried bod ein systemau'n sefydlog ac yn ddiogel ond eu bod hefyd wrthi'n cael eu newid.
17. Pa mor aeddfed yw eich systemau rheoli data? Mae hynny'n amrywio - gweler uchod. Rhan o'r gwaith o brofi cysyniadau fydd asesu, dylunio a gweithredu gweithdrefnau ac adnoddau at ddibenion sy'n ymwneud â dilysu, gwirio, safonau, metadata, tablau a data cyfeirio, mewnforio ac allforio, llunio adroddiadau ac ati. Mae ein systemau cyfredol yn gallu gwneud y pethau hyn ond mae gan y systemau sydd ar wahân i'w gilydd safonau a dulliau gwahanol.
18. A ydych yn fodlon ymrwymo i sicrhau bod modd i'ch systemau ryngweithredu ag aelodau eraill o deulu'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, a sicrhau eu bod yn dilyn safonau'r Rhwydwaith? Ydym, mae hynny'n elfen allweddol o'r gwaith o brofi cysyniadau.
19. A ydych chi a'ch sefydliad am gael rôl yn y broses o weithredu'r nod hwn, ac os felly, beth allai'r rôl honno fod? Mae hwn yn waith sydd ar y gweill yn fewnol, fel y disgrifir uchod. O safbwynt ein hymwneud â'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, byddwn yn cyfrannu drwy ein gwaith gyda'r amryw grwpiau a phrosiectau yr ydym yn ymwneud â nhw ar hyn o bryd.

#### **Nod strategol 5; Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, ei Fwrdd ac Ymddiriedolaeth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol**

20. Beth y mae'n rhaid i'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol ei wneud i wella ei gynaliadwyedd? Llunio datganiad clir o'r risgiau a llunio strategaeth i fynd i'r afael â nhw. Bydd llawer o'r gwaith hwnnw'n cael ei ymgorffori yn y strategaeth hon e.e. cynyddu aelodaeth.
21. Sut y byddech yn hoffi i ni wella cynllun aelodaeth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol? Does dim byd i'w ychwanegu at y nod hwn.
22. Pa fanteision o ran aelodaeth a fyddai'n eich gwneud yn awyddus i gynyddu eich cefnogaeth i'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol? Nid oes unrhyw fanteision penodol ar wahân i weld y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol a phob agwedd ar waith y Rhwydwaith yn gwella'n barhaus. Dyna fydd yn cynnig yr achos cryfaf posibl o safbwynt dangos gwerth am arian, sy'n hanfodol er mwyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gyfiawnhau cyfrannu adnoddau gan gynnwys cyllid ac amser staff.
23. Sut y byddech yn hoffi dylanwadu ar y gwaith o lywodraethu'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol? Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn ymwneud yn helaeth â'r gwaith o lywodraethu'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol. Byddai cyfathrebu'n fwy rheolaidd, yn enwedig drwy ddulliau sain/wyneb yn wyneb, yn ddymunol ond mae cyfyngiadau ar adnoddau'n ffactor i'r naill ochr a'r llall.
24. Pa arweiniad What leadership would you like from the NBN? Does dim byd i'w ychwanegu at y sefyllfa gyfredol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gefnogol iawn i'r cyfeiriad y mae'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol wedi bod yn mynd iddo yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.
25. A ydych chi a'ch sefydliad am gael rôl yn y broses o weithredu'r nod hwn, ac os felly, beth allai'r rôl honno fod? Fel uchod, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru lawer o gynrychiolwyr eisoes ym mhob un o grwpiau'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, gan gynnwys y Bwrdd.

Yn olaf, os hoffech i ni ystyried unrhyw beth arall, nodwch eich syniadau isod. Mae Data Agored Cysylltiedig yn gyfle cyffrous i bob math o ddata, ac nid yw data a gwybodaeth fiolegol ac amgylcheddol yn eithriad. Byddai'n ddiddorol iawn cael trafodaeth ynghylch y mater ar draws y rhwydwaith er mwyn gweld a allai/sut y gallai'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol fanteisio ar hynny, ar ffurf gweithdy efallai neu gyfarfod a gaiff ei gynnal adeg y gynhadledd flynyddol neu gyfle addas arall.